

Disgrifiad o'r fideo mewn geiriau

Dyma olygfa i fyny Ffordd yr Orsaf o Rodfa'r Tywysog wrth i'r haul godi. Mae ceir yn troi i fynd ar Ffordd yr Orsaf, wrth ymyl ynys draffig newydd yng nghanol Rhodfa'r Tywysog.

Y gylched: Ffordd Abergele, Ffordd Penrhyn, Rhodfa'r Tywysog, Ffordd yr Orsaf
Mae beiciwr yn teithio ar hyd Ffordd Abergele, ar lwybr beicio glas newydd ar ochr chwith y ffordd.

O fynd heibio i Eglwys Sant Paul ar y chwith, mae yna ramp isel sy'n dod â'r llwybr beicio a'r ffordd at yr un lefel â'r palmant. Ar y chwith ar ôl yr arhosfan bysiau mae sgwâr newydd, ar y dde mae yna fannau parcio ar y stryd.

Ar y gyffordd â Woodland Road East ger siop Spar, mae'r palmant ar y dde yn lledu ac mae coed yno. Mae ramp isel ar y ffordd, sy'n dod â hi at lefel y palmant.

Ar ôl y gyffordd â Ffordd yr Orsaf ar y dde, mae palmant yr ochr dde'n culhau ac mae mwy o fannau parcio ar yr ochr dde. Ar y gyffordd â Woodland Road West ger Dorothy's Florist, mae yna ramp isel am i lawr ar y ffordd a'r trac beicio. Mae'r trac beicio'n mynd yn ôl yn las ac yn dychwelyd i'r un lefel â'r ffordd.

Traffig unffordd yn unig a geir, yn teithio tuag at West End. Mae car yn troi i'r dde i fynd ar Ffordd Penrhyn, sydd hefyd yn unffordd, a heibio i groesfan i gerddwyr. Mae yna fannau parcio ar y stryd bob ochr i'r ffordd. Ar waelod y ffordd mae yna gyffordd ac ynys draffig, gyda'r dewis o droi i'r chwith neu i'r dde ar Rodfa'r Tywysog. Mae troi i'r chwith yn mynd â chi i'r gorllewin ar hyd Rhodfa'r Tywysog, gyda thraffig dwyffordd. Mae troi i'r dde yn mynd â chi i'r dwyrain ar hyn Rhodfa'r Tywysog tuag at Ganolfan Siopa Bay View, a'r traffig yn teithio un ffordd yn unig.

O droi i'r dde ar Rodfa'r Tywysog, mae yna lwybr beicio glas ar ochr chwith y ffordd. Mae yna faes parcio newydd ar hen safle Neuadd y Farchnad, gyda mynedfa iddo oddi ar Rodfa'r Tywysog. Yn y maes parcio, mae yna fannau parcio anabl, mannau parcio cyffredinol a sribyn o wellt gyda choed yn y canol.

Wrth symud ymlaen ar hyd Rhodfa'r Tywysog, mae yna ynys draffig newydd a lôn sy'n troi i'r dde er mwyn i'r traffig gael teithio i fyny Ffordd yr Orsaf. Mae'r traffig yn teithio'r ddwy ffordd unwaith eto ar ôl y gyffordd hon. Mae yna groesfan fotymog i gerddwyr ar waelod Ffordd yr Orsaf.

Wrth deithio i fyny, mae palmentydd llydan bob ochr i Ffordd yr Orsaf, gyda mannau parcio wedi'u lleoli'n rheolaidd. Mae yna gynwysyddion planhigion mawr a choed ychwanegol ar ymyl y ffordd ar bob palmant.

Mae'r olygfa'n newid i ddangos tir Eglwys Sant Paul, gan symud tuag at sgwâr newydd Sant Paul. Mae hwn yn fan palmantog gyda chynwysyddion planhigion, seddi a choed. Mae arwydd 'Colwyn' mawr gwyn yn sefyll yn y canol. Mae'r sgwâr yn sefyll ar gornel y gyffordd rhwng Ffordd Abergele a Woodland Road East, ger siop Spar.

Mae'r olygfa'n newid i edrych i lawr Ffordd yr Orsaf, yn groes i lif y traffig unffordd. Mae yna gynwysyddion planhigion gyda seddi'n sownd ynddyn nhw ac mae'r caffis wedi rhoi byrddau y tu allan ar y palmant llydan. Mae yna groesfannau botymog wedi'u gosod yn rheolaidd ar hyd y ffordd.

Ceir golygfa o'r awyr o Ffordd yr Orsaf, yn dangos y mannau parcio bob ochr i'r ffordd a safle tacsis. Ar ben y ffordd, yn union cyn y gyffordd, mae yna groesfan fotymog arall. Mae car yn troi i'r dde i fynd ar Ffordd Abergele.

Y cyffyrdd

O edrych i lawr Ffordd Abergele o'r gyffordd â Woodland Road West ger Dorothy's Florist, mae ceir yn troi i'r dde i fynd ar Ffordd Abergele oddi ar Ffordd yr Orsaf. Mae ramp isel am i lawr ar y ffordd a'r trac beicio, sy'n gadael cwrw uwch ar y palmant.

Ymhellach i'r dwyrain, mae'r lôn feicio las yn croesi'r gyffordd â Woodland Road East ger siop Spar. Mae'r palmant ar yr ochr draw yn fwy llydan. Mae golygfa o'r awyr o'r gyffordd yn dangos marciau ffordd unffordd a ramp isel yn mynd i lawr at lefel y ffordd ar ôl croesfan y lôn feicio.

Ceir golygfa o'r awyr o gyffordd Ffordd yr Orsaf, sy'n dangos ramp isel i fyny at lefel y ffordd ar Ffordd Abergele, ger y llinellau toredig 'Ildiwch'. Mae'r marciau ffordd yn dangos mai dim ond i'r dde y cewch chi droi. Mae yna groesfan fotymog i gerddwyr yn union cyn y gyffordd.

Mae'r olygfa'n newid i ddangos golygfa o'r awyr o gyffordd Ffordd Abergele a Ffordd Penrhyn. Mae yna ynys draffig fechan gyda llinellau lletraws gwyn i wahanu dwy lôn. Gan deithio o'r dwyrain, mae'r lôn chwith ar Ffordd Abergele wedi'i marcio â saeth syth ymlaen, ac mae'r traffig yn cael teithio'r ddwy ffordd. Mae'r lôn dde wedi'i marcio i droi i'r dde i lawr Ffordd Penrhyn, gyda llinell doredig 'ildiwch'. Traffig sy'n dod o'r gorllewin sy'n cael blaenoriaeth wrth droi'r gornel ar Ffordd Penrhyn i fynd ar hyd y system unffordd.

Ar waelod Ffordd Penrhyn, ceir golygfa o'r awyr o'r gyffordd â Rhodfa'r Tywysog. Mae yna ynys draffig gyda llinellau lletraws gwyn o'i hamgylch, er mwyn rhannu'r lonydd i droi i'r dde ac i'r chwith. Mae troi i'ch chwith yn mynd â chi i'r gorllewin ar hyd Rhodfa'r Tywysog, gyda thraffig dwyffordd. Mae troi i'r dde yn mynd â chi i'r dwyrain ar hyd Rhodfa'r Tywysog tuag at Ganolfan Siopa Bay View, gyda thraffig unffordd yn unig.

Mae golygfa o'r awyr o gyffordd Rhodfa'r Tywysog a Ffordd yr Orsaf yn dangos ramp isel ar y ffordd, cyn ynys draffig â llinellau lletraws gwyn o'i hamgylch. Mae'r lôn chwith wedi'i marcio â saeth syth ymlaen, ac mae'r traffig yn cael teithio'r ddwy ffordd. Mae'r lôn dde, i droi i fynd ar Ffordd yr Orsaf, wedi'i marcio â llinell doredig 'ildiwch'. Traffig sy'n dod o'r dwyrain sy'n cael blaenoriaeth wrth droi'r gornel ar Ffordd yr Orsaf i fynd ar hyd y system unffordd.

Mae ceir yn teithio i fyny Ffordd yr Orsaf i'r gyffordd ar y pen gyda Ffordd Abergele.

Dyma olygfa i fyny Ffordd yr Orsaf o Rodfa'r Tywysog wrth i'r haul fachlud.